WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol

## Cyngor Dinas Caerdydd

Cyhoeddwyd: Chwefror 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 735A2015



Paratowyd yr adroddiad hwn ar Waith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol gan Non Jenkins, Chris Pugh, David Wilson, Sara-Jayne Byrne, Allison Rees, Phil Morgan, Avril Watkins, Andrew Strong ac Emily Owen dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Cydnabyddiaeth llun y clawr – Kieran Ridley

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, ond mae bellach ar bwynt allweddol yn y broses o'u hymgorffori os yw am gyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell 4

Argymhellion a Cynigion ar gyfer Gwella 5

Adroddiad manwl 9

At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol, ac wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog 9

Mae'r Cyngor yn awr ar bwynt allweddol yn y broses o sicrhau bod trefniadau gwell wedi'u hymgorffori ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn adeiladol ar draws y sefydliad er mwyn cyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell 17

# Adroddiad cryno

## Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, ond mae bellach ar bwynt allweddol yn y broses o'u hymgorffori os yw am gyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell

1 Ym mis Medi 2014 cyhoeddwyd ein Hasesiad Corfforaethol o Gyngor Dinas Caerdydd, a ddaeth i'r casgliad fod 'Trefniadau arwain a rheoli tameidiog wedi golygu bod perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaeth allweddol heb wella.' Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

a mae ansefydlogrwydd gwleidyddol a rheolaethol dros nifer o flynyddoedd wedi golygu bod y Cyngor wedi methu â datblygu'r diwylliant a'r fframwaith angenrheidiol ar gyfer gwelliant parhaus;

b mae'r Cyngor wedi nodi'r hyn y mae am ei gyflawni ar gyfer ei ddinasyddion, ond nid oedd ganddo ddull effeithiol o'i ddarparu;

c nid yw rhai prosesau y bwriedir iddynt sicrhau llywodraethu da yn cael eu gweithredu, ac mae prosesau penderfynu yn aneffeithlon ac yn brin o dryloywder;

ch er y bu rhai newidiadau yn ddiweddar, mae rheoli perfformiad wedi methu â sicrhau gwelliant cyson yn y gorffennol;

d er bod y Cyngor yn sicrhau cyllideb gytbwys, mae'r rhagolygon ar gyfer cyflawni arbedion arfaethedig yn 2014-15 yn ansicr ac mae lefel ddisgwyliedig cyllid yn y dyfodol yn golygu bod dulliau presennol o ddarparu gwasanaeth yn anghynaliadwy;

dd mae trefniadau adnoddau dynol corfforaethol wedi'u seilio ar arfer cadarnhaol ond nid ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson;

e mae'r Cyngor yn gwella'i ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a'i drefniadau rheoli gwybodaeth;

f nid yw'r Cyngor yn rheoli ei asedau tir ac eiddo yn dda; ac

ff mae'r Cyngor yn cydweithredu'n dda ag eraill ac yn gallu dangos canlyniadau well i ddinasyddion.

2 Roedd adroddiad yr asesiad Corfforaethol yn gwneud un cynnig ar gyfer gwella, sef y dylai'r Cyngor 'sicrhau bod ei Gynllun Datblygu Sefydliadol yn cael ei roi ar waith er mwyn datrys y materion amrywiol a nodir yn yr asesiad hwn'.

3 Mae'r adolygiad dilynol hwn yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn yr Asesiad Corfforaethol yn effeithiol?'

4 Er mwyn cywain gwybodaeth ar gyfer ein Hasesiad Corfforaethol Dilynol, bu i ni gynnal dau adolygiad trywydd (tracer review) o agweddau canlynol y proses penderfynu:

a newidiadau i wasanaethau hamdden y Cyngor a'r cynydd o ran cyflwyno modelau darparu eraill; a

b newidiadau i strategaeth wastraff y Cyngor (a'r trefniadau cysylltiedig).

Bu canfyddiadau'r adolygiadau trywydd hyn yn ategu ein gwaith asesu corfforaethol dilynol ac wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

5 Daw ein hadolygiad dilynol i'r casgliad: **'Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, ond mae bellach ar bwynt allweddol yn y broses o'u hymgorffori os yw am gyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell.'**

6 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

a at ei gilydd, mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol, ac wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog; ac

b mae'r Cyngor yn awr ar bwynt allweddol yn y broses o sicrhau bod trefniadau gwell wedi'u hymgorffori ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn adeiladol ar draws y sefydliad er mwyn cyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell.

## Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella

7 Yn yr adroddiad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud un argymhelliad ffurfiol a 14 o gynigion ar gyfer gwella.

### Argymhellion

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau canlyniadau gwell yn ystod y 12 mis nesaf. |

## Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | |
| C1 | Datblygu **cyfleoedd ymgysylltu** pellach gyda staff ac Aelodau i sefydlu diwylliant rheoli perfformiad adeiladol yn gyson ar draws y sefydliad er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau gwell. |
| **Llywodraethu** | |
| C2 | Egluro **rolau a chyfrifoldebau** o fewn fframwaith gwneud penderfyniadau y Cyngor. Yn benodol:<br>a sicrhau bod cyfarfodydd y Cabinet Anffurfiol yn cael eu cofnodi'n briodol;<br>b sicrhau bod teitl a rolau Cynorthwywyr i Aelodau Cabinet yn cael eu cymhwyso'n gyson gan sicrhau nad yw eu rolau a'u cyfrifoldebau cyfyngedig yn cymylu unrhyw atebolrwydd;<br>c adolygu rôl ac aelodaeth y Grwpiau Cynghori Cabinet i sicrhau nad yw'r aelodau sy'n rhan ohonynt yn aelodau o unrhyw Bwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am graffu ar yr un materion/materion tebyg; a<br>ch sicrhau bod penderfyniad yn cael ei wneud ar fater dirprwyo penderfyniadau gweithredol i aelodau unigol o'r Cabinet. |
| C3 | Cryfhau swyddogaeth **graffu** y Cyngor ymhellach drwy:<br>a datblygu dull o graffu ar faterion trawsbynciol; a<br>b sicrhau bod unrhyw seddi gwag ar bwyllgorau craffu yn cael eu llenwi'n fuan. |
| C4 | Sicrhau bod **agendâu pwyllgorau, cofnodion a chofnodion penderfyniadau** yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol ar wefan y Cyngor, a chynyddu nifer y pwyllgorau a weddarlledir. |
| C5 | Gwella atebolrwydd Aelodau drwy:<br>a sicrhau bod y Pwyllgor **Safonau a Moeseg** yn chwarae rhan fwy rhagweithiol yn hyrwyddo a gorfodi Ymrwymiad Caerdydd i Gynghorwyr a pholisïau ategol mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau; ac<br>b atgyfnerthu'r rhaglenni Addysg a Datblygiad Aelodau ar sail asesiadau cymhwysedd gyda golwg ar wella sgiliau a dealltwriaeth yr Aelodau – i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n fwy effeithiol; a<br>c chanfod y math o hyfforddiant sy'n hanfodol i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **Adrodd ar Berfformiad** | |
| C6 | Cryfhau **trefniadau adrodd ar berfformiad** ymhellach i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau drwy:<br>a gynnwys mesurau perfformiad CAMPUS yng nghynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a'r pwyllgor craffu i ddangos cynnydd;<br>c defnyddio a chofnodi sgôr Coch/Ambr/Gwyrdd gyda chysondeb ar gyfer camau gweithredu ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol a chamau gweithredu Cynllun y Gyfarwyddiaeth mewn adroddiadau chwarterol a ddarperir i'r Pwyllgor Craffu;<br>ch mynnu bod cynlluniau lefel gwasanaeth yn gyson; a<br>d blaenoriaethu dangosyddion perfformiad allweddol lle bydd y Cyngor yn ceisio arddangos perfformiad a chanlyniadau gwell. |
| **Swyddogaethau Galluogi Corfforaethol** | |
| C7 | Mabwysiadu dull mwy cydlynus a chydgysylltiedig o gyflawni **swyddogaethau galluogi corfforaethol** er mwyn helpu'r Cyngor ysgogi gwelliant. |
| C8 | Datblygu **trefniadau rheoli perfformiad** y Cyngor ymhellach drwy:<br>a wella strategaeth rheoli perfformiad y Cyngor i gynnwys canllawiau, amserlenni, prosesau a gweithdrefnau i gynnal dull cyson o weithredu; a<br>b chynyddu'r lefel rheoli perfformiad a herio a gyflawnir gan y tîm perfformiad canolog. |
| C9 | Datblygu prosesau a strategaethau **Adnoddau Dynol** y Cyngor ymhellach drwy:<br>a gryfhau proses werthuso staff y Cyngor drwy gynnwys amcanion y gellir eu mesur yn glir, casglu gwybodaeth ar hyfforddiant ar sail gorfforaethol, a datblygu cysylltiadau â dyheadau gyrfaol staff ar gyfer y dyfodol i gefnogi cynllunio'r gweithlu a chynllunio olyniaeth; a<br>b gwreiddio strategaeth gweithlu'r Cyngor ymhellach a'i hintegreiddio â chynlluniau ariannol a chynllunio gwasanaethau. |
| C10 | Cwblhau'r ymarfer casglu data sy'n ymwneud â'r **defnydd o asedau** a datblygu system sengl ar gyfer cadw gwybodaeth briodol am reoli asedau. |
| C11 | Sicrhau bod popeth sydd ag angen ei gwblhau yn sgîl adolygiad Rhagoriaeth Adeiladu Cymru o'r fframwaith cynnal a chadw adeiladu, yn cael ei gwblhau. |

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Swyddogaethau Galluogi Corfforaethol** |
| C12 Cryfhau **trefniadau cynllunio ariannol** y Cyngor ymhellach drwy:<br>a ddatblygu cysylltiadau amlycach rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canol a threfniadau cynllunio gwelliant y Cyngor;<br>b atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r cynlluniau gwasanaeth;<br>c sicrhau bod cynigion arbedion y Cyfarwyddiaethau wedi eu cysylltu lle'n berthnasol â Rhaglen Ddatblygu'r Sefydliad, bod pris wedi ei bennu ar gyfer pob agwedd ohono, a bod ei gyflwyno wedi ei gymell gan Fwrdd y Rhaglen Datblygu Sefydliad; a<br>ch sicrhau bod yr holl gynlluniau arbed arian wedi eu datblygu'n llawn ac fel sy'n briodol gydag amserlenni realistig adeg penderfynu'r gyllideb. |
| C13 Cryfhau **trefniadau TG** y Cyngor ymhellach drwy:<br>a ddatblygu ymhellach y drafft strategaeth TGCh Digidol a chytuno'n ffurfiol ar y weledigaeth strategol hon ar gyfer darparu gwasanaethau digidol;<br>b defnyddio'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn llawn ar draws y Cyngor mewn gwasanaethau priodol;<br>c gweithredu'r technolegau amserlennu gwaith symudol a gweithio hyblyg lle bo'n briodol; ac<br>ch ehangu nifer a dwysedd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol TGCh a fesurir ac yr adroddir yn eu cylch, i gwmpasu'r gwasanaeth TGCh cyfan, ac i feincnodi yn erbyn cymaryddion gwasanaeth cyhoeddus. |
| C14 Cryfhau ymhellach **drefniadau llywodraethiant gwybodaeth** y Cyngor drwy:<br>a gwblhau'r camau gweithredu sydd heb eu cyflawni o archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar warchod data a chyfrinachedd gwybodaeth;<br>b cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau rhaglen hyfforddi e-ddysgu'r Cyngor ar gyfrinachedd gwybodaeth a gwarchod data;<br>c gweithredu'r System Rheoli Cofnodion Electronig yn llawn ar draws y Cyngor;<br>ch gwella cyfraddau ymateb y Cyngor yn erbyn targedau statudol mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth o ddata a warchodwyd a cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; a<br>d chwblhau hunanasesiad yn unol â chanllawiau egwyddorion ar waith Caldicott. |

8 Mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad ffurfiol gan baratoi datganiad weithredu ac amserlen arfaethedig o fewn 30 o ddiwrnodau ar ôl i'r adroddiad hwn ddod i law.

Adroddiad manwl

## At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol, ac wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog



## Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor wedi dod yn fwy cydlynus, wedi gwella ymgysylltiad ag aelodau a staff, ac wedi gosod cyfeiriad strategol clir

9 Ers ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Medi 2014, mae arweinyddiaeth y Cyngor yn fwy cydlynus. Penodwyd yr Arweinydd ym mis Mawrth 2014, a sefydlwyd Cabinet newydd yn sgîl proses ddethol gystadleuol.

10 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor wedi gwella diwylliant y sefydliad drwy hyrwyddo ymgysylltiad gwell gydag aelodau a staff ac annog agwedd fwy agored a gwell hunanymwybyddiaeth o wendidau a chryfderau'r Cyngor.

11 Mae'r arweinyddiaeth wedi cymryd nifer o gamau i ddatblygu a hyrwyddo diwylliant ymgysylltiol, yn cynnwys yr arfer o gynnwys arweinwyr y gwrthbleidiau mewn gwahanol drafodaethau. Er enghraifft:

- a mae'r gwahoddiad i arweinwyr y gwrthbleidiau fynychu cyfarfodydd Cabinet – er mwyn codi materion a gofyn cwestiynau'n uniongyrchol i'r Cabinet – yn un parhaus;
- b mae cyfarfodydd rheolaidd yr Arweinydd gydag arweinwyr y gwrthbleidiau yn parhau;
- c gwahoddir arweinwyr y gwrthbleidiau i fynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd Fforwm Herio'r Cyngor;
- ch gwahoddir Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu ar Berfformiad i fynychu cyfarfodydd Fforwm Herio'r Cyngor fel sylwedydd; a
- d cheir ymrwymiad clir i gefnogi datblygiad sgiliau'r Aelodau drwy gyfrwng strategaeth ddatblygu benodol i'r Aelodau.

12 Yn ystod ein hadolygiad, nodwyd consensws sylweddol o gefnogaeth i'r Prif Weithredwr, gan swyddogion ac Aelodau fel ei gilydd. Yn yr un modd â'r Arweinydd, bu i'r Prif Weithredwr fabwysiadu dull cynhwysol o ymwneud â swyddogion, gan gyfarfod â staff rheng flaen a rheolwyr haen ganol yn rheolaidd i drafod y cynnydd ym mherfformiad y Cyngor.

13 Ceir ymrwymiad clir ac agored, yn wleidyddol ac yn rheolaethol, i gydnabod a mynd i'r afael â pherfformiad gwael hirsefydlog y Cyngor.

14 Mae'r Cyngor wedi sefydlu cyfeiriad strategol clir. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2015-17 yn nodi pedair blaenoriaeth a gefnogir gan 11 o amcanion gwella. I asesu a fydd y Cyngor yn llwyddo i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion, nodwyd dangosyddion cenedlaethol a lleol er mwyn mesur perfformiad. Cyflwynwyd cynlluniau cyflawni gorfodol ar gyfer y cyfarwyddiaethau sy'n cynnwys y camau gweithredu a'r dangosyddion o Gynllun Corfforaethol 2015-17 i ysgogi a sicrhau gwelliant ar lefel gwasanaethau.

15 Bu i’r Cyngor yn fwy diweddar ymateb yn ragweithiol i strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ynghylch bod yn Gyngor di-wastraff, a mynd i’r afael â’i fethiant yn y gorffennol i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru parthed gwastraff. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar strategaeth wastraff newydd y Cyngor fel rhan o Holi Caerdydd 2015, ac fe gymeradwywyd y strategaeth yn Ebrill 2015. Wrth ddatblygu’r strategaeth newydd fe gafwyd craffu priodol ac fe wnaethpwyd y penderfyniadau mewn modd eglur, amserol a thryloyw. Nid oes modd cyfrif effaith y strategaeth wastraff ar gyfraddau ailgylchu’r Cyngor gan nad yw ei pherfformiad terfynol mewn cymhariaeth â’r targedau ailgylchu ar gyfer 2015-16 yn hysbys eto.

16 Yn dilyn adolygiad o fodelau cyflwyno gwasanaethau hamdden eraill a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2014 gan gwmni Max Associates, bu i Gabinet y Cyngor benderfynu cynnal proses caffael ar gyfer rheoli 11 o ganolfannau hamdden a dau ganolfan gelfyddydau. Roedd y Swyddogion a’r Aelodau’n gytûn ynghylch y deilliannau dymunol a’r model ar gyfer cyflwyno gwasanaethau hamdden y dyfodol. Ymgynghorwyd â thrigolion y ddinas ynghylch y cynigion drwy Holi Caerdydd 2015 ac fe sefydlwyd bwrdd goruchwylio ar gyfer y prosiect. Mae swyddogaeth ragweithiol gan y Cyfarwyddwr Gwaith Dinesig newydd i sefydlu trefniadau atebolrwydd y prosiect.

17 Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ei Hadolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2014-2015 ym mis Hydref 2015, a nododd fod:

a Y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn cyflwyno darlun clir o’r heriau a meysydd cynnydd a wnaed yn y gyfarwyddiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r cyfarwyddwr hefyd yn nodi amcanion clir ar gyfer sicrhau gwelliannau dros y flwyddyn i ddod.

b Mae’r Cyngor yn cynnal trosolwg strategol o wasanaethau sy’n galluogi’r Cyngor i ddechrau cynllunio ar gyfer newidiadau o fewn yr adran.

18 Yn ystod mis Hydref 2015, fe gynhaliodd Estyn ymweliad Gwelliant Sylweddol â’r Cyngor er mwyn adolygu ei gynnydd mewn cymhariaeth â’r argymhellion a wnaethpwyd yn ystod ymweliad monitro mis Chwefror 2014. Un o’r argymhellion oedd i ‘Wella effeithiolrwydd y cynllunio ar y cyd ym mhob agwedd o’r gwaith partneriaeth’. Yng nghyswllt yr argymhelliad hwn bu i Estyn adrodd bod sail mwy strategol i’w gael bellach i’r gwaith o adeiladu diwylliant partneriaeth, un lle mae partneriaid yn gweithio’n agosach i wella llesiant pobl a thrwy hynny fynd i’r afael a thangyflawni. Ar ben hyn fe fu i Estyn adrodd bod cynnydd yn effeithiolrwydd ymgynghori’r Cyngor, a bod y newid hwn yn y diwylliant wedi arwain at gyd-gysylltu gwell rhwng y Cyngor a’i ysgolion.

19 Mae Estyn yn dod i'r casgliad bod y gwelliannau i'r cydweithio mewn partneriaeth, at ei gilydd yn cyfrannu at well deilliannau yn yr ysgolion. Rhwng 2013 a 2015 fe gafwyd cynnydd o oddeutu naw y cant yng nghanran y disgyblion yn ysgolion Caerdydd oedd yn cyrraedd y trothwy lefel 2 sy'n cynnwys Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg. Yn yr un cyfnod fe gafwyd gwelliant yng nghanran y disgyblion a gyflawnodd y Dangosydd Deilliant Cyfnod Sylfaen a'r dangosydd pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2. Er na chafwyd gwelliant yn y ffigurau presenoldeb yn ystod 2014-15, mae cynnydd hanesyddol y blynyddoedd blaenorol wedi parhau. Serch hynny, bu'r Cyngor yn llai effeithiol yn gweithio gyda'i phartneriaid i ostwng nifer y gwaharddiadau a chynyddu nifer y bobl ifanc sydd mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.

20 Cwblhaodd y Cyngor ei waith ar ailstrwythuro ei uwch dîm rheoli ym mis Mehefin 2015, gan gwtogi nifer y Cyfarwyddwyr o 11 i saith er mwyn helpu i leihau gweithio ynysig rhwng adrannau a gwella cydgysylltiad a chyfathrebu ymysg yr uwch dîm rheoli. Drwy ein cyfweliadau â swyddogion ac Aelodau, gwelsom fod yr ailstrwythuro at ei gilydd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol, a'i fod yn dechrau helpu i wella effeithiolrwydd y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn ogystal â lleihau gweithio ynysig.

## Mae'r gwelliant yn y trefniadau llywodraethiant yn helpu i hyrwyddo diwylliant gwell o atebolrwydd a rheoli risg

21 Cynhelir cyfarfodydd Cabinet mewn modd priodol, ac mae aelodau'r Cabinet yn ymgyfarwyddo â'u rolau a her gadarn cwestiynau arweinwyr y gwrthbleidiau. O'n harsylwadau, mae'r adroddiadau a ddarperir i'r Cabinet wedi'u hysgrifennu'n dda a'u cyflwyno'n effeithiol.

22 Mae gwaith craffu'r Cyngor yn gwella. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn dosbarthu camau gweithredu o'r cyfarfodydd craffu i'r aelod Cabinet perthnasol, a gwelodd ein hadolygiad fod aelodau'r Cabinet yn ymateb yn brydlon.

23 Mae cylch gorchwyl clir gan Bwyllgor Safonau a Moeseg y Cyngor i fonitro ymddygiad yr aelodau. Hefyd, mae'r Pwyllgor, mewn cysylltiad â Swyddog Monitro'r Cyngor, wedi trefnu amryw o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer yr Aelodau gan gynnwys sesiynau ar y defnydd priodol o Gyfryngau Cymdeithasol a threfniadau Gwarchod Data. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi dechrau mynychu cyfarfodydd pwyllgorau amrywiol y Cyngor er mwyn arsylwi arnynt.

24 Mae statws pwysig gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor o fewn y Cyngor, gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn ei fynychu'n rheolaidd er mwyn cyflwyno sylwadau ar faterion perthnasol. Ym mis Hydref 2015, cyflwynodd y Pwyllgor system olrhain ar gyfer monitro adroddiadau rheoleiddwyr allanol a chamau gweithredu'r Cyngor mewn perthynas ag argymhellion perthnasol a chynigion ar gyfer gwella.

25 Mae ansawdd ac effaith prosesau atebolrwydd ehangach y Cyngor wedi gwella. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys arfarniadau ar gyfer yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet yn ogystal â'r Prif Weithredwr, a nifer o fecanweithiau a gyflwynwyd ar gyfer herio perfformiad cyfarwyddiaethau yn uniongyrchol a chynyddu atebolrwydd personol uwch reolwyr. Er enghraifft, cyflwyno'r Fforwm Herio a'r Siambr Seren.

26 Mae'r Cyngor wedi gwella'r ffordd y mae'n nodi ac yn rheoli risgiau. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn nodi 25 o risgiau corfforaethol ac yn pennu sut y dylid rheoli'r rhain. Mae'r polisi rheoli risg yn cynnwys diffiniadau ac arweiniad clir i swyddogion wrth bennu lefelau risg. Mae'r Cabinet yn adolygu'r gofrestr risg ddwywaith y flwyddyn ac mae risgiau corfforaethol wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Cabinet.

27 Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion o 'Ymgymeriad'[1] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Awst 2013, yn ymwneud â threfniadau ar gyfer ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth diogelu data. Ym mis Mehefin 2014, canfu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y gellid cael 'sicrwydd rhesymol' o drefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor, a darparodd nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Cyflawnwyd adolygiad dilynol ym mis Hydref 2014 a gwelodd fod cynnydd pellach wedi'i wneud.

28 Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod 2014-18. Hefyd, datblygwyd Polisi Rheoli Cofnodion i gefnogi'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth sy'n nodi trefniadau cadw cofnodion y Cyngor. Treialwyd y System Rheoli Cofnodion Electronig ar draws y gorfforaeth, a'i rhoi ar waith mewn nifer fach o fannau ar draws y Cyngor fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth. Ym mis Medi 2015 diweddarodd y Cyngor ei strategaeth Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth, gan ymgorffori'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a'r Polisi Rheoli Cofnodion yn ei fodiwlau e-ddysgu ar gyfer staff.

## Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu diwylliant rheoli perfformiad gwell ac mae trefniadau gwell ar waith ar gyfer monitro canlyniadau

29 Mae gwendidau rheoli perfformiad hirsefydlog yn dechrau cael sylw ac mae diwylliant rheoli perfformiad gwell yn dod i'r amlwg. Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn arwain ymdrechion i sicrhau bod rheoli perfformiad yn cael ei wneud yn gyson ar draws y Cyngor. Datblygwyd strategaeth rheoli perfformiad sy'n cyfleu pwysigrwydd gwybodaeth ddibynadwy, gyson, amserol a chywir am berfformiad.

30 Cyflwynir adroddiadau perfformiad chwarterol sy'n ymwneud â chynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau'r Cyngor i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu diweddariad ar gamau gweithredu a thargedau allweddol ac yn nodi unrhyw heriau a risgiau sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â chamau lliniaru.

1 Mae nifer o adnoddau ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth allu rhoi camau ar waith i newid ymddygiad sefydliadau ac unigolion sy'n casglu, defnyddio a chadw gwybodaeth bersonol. Mae un yn cynnig yr opsiwn o gyhoeddi 'ymgymeriad' i rwymo sefydliad at lwybr gweithredu penodol er mwyn gwella ei gydymffurfiaeth. **Tudalen Taking Action - Data Protection ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth**

31 Hefyd, mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r 'Siambr Sêr' er mwyn galluogi'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet a'r Prif Weithredwr i graffu ar gyfarwyddwyr mewn perthynas â'u hadroddiadau perfformiad chwarterol. Nododd ein gwaith arsylwi ar y Siambr Seren ei bod yn cynnig mecanwaith cadarn ar gyfer cwestiynu a herio perfformiad cyfarwyddiaethau.

32 Mae Aelodau'r Cabinet yn cydnabod Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor fel dulliau pwysig o fesur cynnydd a llwyddiant. Mae'r Cyngor wedi dangos uchelgais drwy ddatgan yn ei Gynllun Corfforaethol ei fod yn anelu, yn 2015-16 a 2016-17, i sicrhau bod dros 50 y cant o'i Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a'i Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn yr hanner uchaf o'i gymharu â holl Gynghorau Cymru.

33 Fel rhan o'n hadolygiad, cynhaliwyd archwiliad o sampl o Ddangosyddion Perfformiad y Cyngor a'i systemau data gweithredol. Cynhelir adolygiadau o ansawdd data er mwyn cael sicrwydd fod systemau mesur perfformiad y Cyngor yn gadarn a bod y data perfformiad sy'n deillio ohonynt yn gywir. Archwiliwyd chwe dangosydd perfformiad gennym (pedwar dangosydd strategol Cenedlaethol a dau ddangosydd lleol) a'r systemau sylfaenol a ddefnyddiwyd i grynhoi'r canlyniadau.

34 O ran y dangosyddion a adolygwyd gennym, gwelsom fod y systemau mesur perfformiad yn gadarn a bod data perfformiad sy'n deillio ohonynt yn gywir ar y cyfan. Darperir cymorth gan y tîm perfformiad canolog ar gyfer asesu a dilysu gwybodaeth am berfformiad.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol, rheoli adnoddau dynol a rheoli asedau a ThG

### Ehangwyd cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor i gwmpasu cyfnod hwy, ac mae mwy o ymgysylltiad â chyfarwyddiaethau wrth osod targedau ac ail-lunio'r gyllideb

35 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor bellach yn cwmpasu'r cyfnod 2016-17 i 2018-19. Rhoddwyd camau cadarnhaol ar waith i wella'r modd y caiff arbedion eu nodi ar gyfer 2016-17 ac ar gyfer y tymor canolig, drwy ymgysylltu â chyfarwyddiaethau ac ymarfer i ail-lunio'r gyllideb sylfaenol. Mae'r aelodau a'r cyfarwyddiaethau yn ymwneud yn weithredol yn y broses o osod targedau arbed arian.

36 Hefyd, mae'r Cyngor wedi codi proffil cydnerthedd ariannol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys: rhaglenni hyfforddi ariannol; seminarau i aelodau; a rhannu gwybodaeth gryno am y gyllideb a threfniadau ariannol drwy gyfrwng Dangosfwrdd Cydnerthedd Ariannol.

## Mae trefniadau Adnoddau Dynol y Cyngor yn helpu i gryfhau capasiti a gallu staff

37 Gweithredwyd polisi Adolygu Perfformiad a Datblygiad Personol diwygiedig ym mis Ebrill 2015. Mae'r polisi yn nodi diben arfarnu perfformiad, rolau a chyfrifoldebau perthnasol a'r weithdrefn ar gyfer pennu amcanion a graddio perfformiad staff. Gosodwyd targed ar gyfer cwblhau 90 y cant o arfarniadau staff erbyn pedwerydd chwarter 2015-16. Hyd at Ionawr 2016 mae cyfradd cydymffurfiaeth y Cyngor ag adolygiadau perfformiad wedi gwella, gydag 90 y cant o'r staff erbyn hynny wedi cwblhau'r broses arfarnu.

38 Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau o ran dyddiau a gollir i absenoldeb oherwydd salwch drwy weithredu ystod o fesurau rhagweithiol ac adweithiol. Mae'r rhain yn cynnwys; cyflwyno amcanion penodol ar gyfer rheolwyr yn ymwneud ag absenoldeb oherwydd salwch, adolygu'r polisi Presenoldeb a Llesiant, pecyn cymorth a rhaglen hyfforddi.

39 Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth y Gweithlu ar gyfer y cyfnod 2015-2018, sy'n cydnabod yr angen i ymateb i heriau ariannol a heriau cyflawni yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor fel y'u nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2015-17, ac mae'n gosod pwyslais cynyddol ar, a blaenoriaeth i gynllunio'r gweithlu, nodi'r bylchau yn y gweithlu cyfredol a beth fydd y gofynion adnoddau dynol yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn cynnwys proffil sylfaenol o'r gweithlu cyfredol a chynllun gweithredu clir, gyda chanlyniadau diamwys ar gyfer saith maes blaenoriaeth:

- a cynllunio'r gweithlu,
- b rheoli perfformiad;
- c llais y gweithiwr;
- ch partneriaeth ag undebau llafur;
- d dysgu a datblygu;
- dd iechyd a llesiant; a
- e siarter y gweithiwr.

40 Adroddir ar gynnydd yn erbyn y strategaeth ar sail chwarterol i Fwrdd y Rhaglen Alluogi a Chomisiynu a'r Bwrdd Datblygu Sefydliadol.

## Mae'r Cyngor yn datblygu dull mwy strategol a chydgysylltiedig o reoli asedau

41 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn nodi pwysigrwydd strategol defnyddio'i asedau'n fwy effeithiol ac yn gosod targedau ar gyfer lleihau costau a pherchnogaeth briodol. Daw'r Bwrdd Rheoli Asedau a'r Gweithgor Rheoli Asedau â rheolwyr o bob rhan o'r Cyngor a'i bartneriaid at ei gilydd i reoli asedau fel adnodd corfforaethol, yn hytrach nag ar sail cyfarwyddiaethau unigol.

42 Mae'r wybodaeth a gedwir am asedau wedi gwella hefyd. Bellach, mae'r Cyngor yn cadw cofrestr o bob eiddo gan gynnwys gwybodaeth fanwl amdanynt, megis costau gweithredu, arwynebedd llawr ac ôl-groniad gwaith cynnal a chadw. Mae ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd rheoli asedau wedi codi o ganlyniad i ymgyrch bosteri.

## Mae'r Cyngor wedi rhoi camau ar waith i ddatblygu a defnyddio gwasanaethau digidol a thechnolegau gweithio hyblyg

43 Mae Strategaeth Ddigidol ddrafft yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn cyflwyno ymagwedd 'ddigidol yn gyntaf' tuag at ailgynllunio gwasanaethau. Cynlluniwyd y dull hwn o weithredu i alluogi'r cyhoedd i gyfathrebu ac ymwneud â'r Cyngor yn electronig, gan dalu am wasanaethau drwy ddefnyddio technolegau symudol drwy systemau TG cwbl awtomatig. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cyfuno technoleg fodern â dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hawdd eu defnyddio ac yn effeithlon. Nod y Cyngor yw cydgyfeirio'r systemau TG a ddefnyddir ar draws y sefydliad i ganolbwyntio ar lai o ddatrysiadau a safonau corfforaethol ar gyfer storio gwybodaeth.

44 Bwriedir gosod system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r system yn cadw pob cyswllt a gwasanaeth cyhoeddus mewn un system TG, gan ryddhau sianeli newydd ar gyfer darparu gwasanaethau'n fwy awtomatig; er enghraifft rhoi gwybod drwy gyfrwng dyfais symudol am finiau na chafodd eu casglu. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu graddol dros dair blynedd ar gyfer y system a'i nod yw symud pob gwasanaeth ar-lein erbyn 2018-19.

45 Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau gweithredu technolegau gweithio hyblyg ar draws meysydd gwasanaeth. O fis Mai 2014 cyflwynwyd amserlennu gwaith symudol i'r adran Cynnal a Chadw Cymunedol er mwyn awtomeiddio ac ailgynllunio gwasanaethau, gan ganiatáu i staff y Cyngor weithio mewn modd mwy hyblyg ac effeithlon. Ar hyn o bryd, mae bwriad i ddefnyddio amserlennu gwaith symudol ym maes ail-alluogi oedolion erbyn diwedd 2015.

## Mae'r Cyngor yn awr ar bwynt allweddol yn y broses o sicrhau bod trefniadau gwell wedi'u hymgorffori ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn adeiladol ar draws y sefydliad er mwyn cyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell

### Nid yw ymrwymiad Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Cyngor i ddiwylliant cydlynus a chynhwysol bob amser yn cael ei gyflawni'n gyson nac yn adeiladol ar draws y Cyngor

46 Gwelwyd arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor yn cydlynu ac yn ymgysylltu fwyfwy ac mae wedi gosod nodau strategol cliriach mewn perthynas â pherfformiad ac atebolrwydd. Fodd bynnag, ni chyflawnir y trefniadau hyn a chyfleoedd newydd yn gyson i'r un graddau ar draws y Cyngor. Gwelsom fod i ba raddau roedd rheoli perfformiad ac atebolrwydd wedi ymwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad yn amrywio.

47 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod gwendidau strategol o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ac mae wedi comisiynu gwasanaethau adolygiad gan gymheiriaid i gyflawni asesiad diagnostig o'r gwasanaeth. Nododd yr asesiad diagnostig nad yw arweinyddiaeth broffesiynol yn y gwasanaeth yn ddigon grymus, ac er bod yr uwch dîm yn gweithredu'n effeithiol fel unigolion, ychydig o weithredu ar y cyd a gafwyd. Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod am hyn i'w Bwyllgor Craffu ar Wasanaethau Cymunedol ac Oedolion, sy'n dangos ei fod yn agored ac wedi ymrwymo i ddatgelu a mynd i'r afael â materion hirsefydlog ar y cyd ac yn frwdfrydig.

48 Er ei bod yn amlwg fod y rhan fwyaf o'r Aelodau a'r swyddogion y buom yn siarad â hwy yn rhan o'r adolygiad hwn yn gadarnhaol ynghylch y cyfeiriad y mae'r Arweinyddiaeth a'r Rheolwyr yn datblygu diwylliant mwy ymgysylltiol, roeddent hefyd yn bendant nad yw pawb yn bwrw iddi'n gyson ac yn gadarnhaol gyda'r trefniadau a'r cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu. Mae lefel ymgysylltiad a phresenoldeb yr Aelodau yn amrywio yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu, cyfarfodydd yr Arweinydd ag arweinwyr y gwrthbleidiau, y Fforwm Herio, hyfforddiant i'r Aelodau a sesiynau Briffio'r Aelodau. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i fynychu ac ymgysylltu yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor, a weddarlledir i'r cyhoedd bob amser, yn gryf.

### Ceir nifer o wendidau yn y trefniadau llywodraethiant, rai ohonynt yn hirsefydlog, sydd eto i gael sylw llawn

49 Nid yw Pwyllgor Safonau a Moeseg y Cyngor yn mynd ati'n ddigon rhagweithiol i roi camau ar waith mewn perthynas â phryderon a nodwyd gennym ynghylch ymddygiad nifer fach o'r Aelodau. Mae 'Ymrwymiad Caerdydd' ar waith gan y Cyngor ar gyfer yr Aelodau, ac mae hwn yn nodi disgwyliadau'n ymwneud â'u hymddygiad. Hefyd, mae'r Pwyllgor Safonau wedi nodi 10 egwyddor bywyd cyhoeddus yn ei Adroddiad Blynyddol, ynghyd â'i ymrwymiad i chwarae rhan gadarnhaol a rhagweithiol. Fodd bynnag, gallai'r Pwyllgor wneud mwy i orfodi'r egwyddorion ac Ymrwymiad Caerdydd yn weladwy, gan ei bod yn ymddangos nad yw ymgysylltiad yr Aelodau bob amser yn gadarnhaol, yn broffesiynol ac yn adeiladol. Mae rhai o'r Aelodau wedi ymddieithrio'n agored o fusnes y Cyngor ac yn teimlo'r angen i ymgysylltu â'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfleu eu safbwyntiau.

50 Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, mewn cysylltiad â'r Swyddog Monitro, yn trefnu amrywiol fathau o hyfforddiant i'r Aelodau. Serch hynny, mae angen iddo feddwl mwy ynghylch sut i gynyddu nifer yr Aelodau sy'n dod i'r sesiynau hyfforddiant, a pha hyfforddiant sy'n hanfodol i'r Aelodau gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol e.e. hyfforddiant ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a rheolau gwarchod data.

51 Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd Cabinet Anffurfiol, fel sy'n arferol gan y rhan fwyaf o Gynghorau. Fodd bynnag, mae angen egluro a chyfathrebu rôl a chyfrifoldebau'r Cabinet Anffurfiol i'r Aelodau a'r swyddogion. Dylid cadw dogfennau a chofnodion priodol o drafodaethau yn ogystal â chamau gweithredu er mwyn nodi llwybr gwneud penderfyniadau yn eglur (gan gynnwys cofnodi pan gytunir i beidio â gwneud penderfyniad neu i beidio ag ystyried opsiwn penodol).

52 Penodwyd tri chynorthwyydd i Aelodau'r Cabinet. Diffiniwyd eu swyddogaethau'n glir yng nghyfansoddiad y Cyngor, ond yn ystod ein hadolygiad, cyfeiriwyd atynt yn aml fel Aelodau Cabinet Cynorthwyol, sy'n swyddi nas caniateir. Mae'r diffyg eglurder hwn yn cynyddu'r risg y gellid eu gweld fel aelodau o'r Cabinet neu ddod yn rhan uniongyrchol o'r broses o wneud penderfyniadau, a hynny'n amhriodol. Fodd bynnag, dywedodd y Cyngor wrthym nad oedd hynny'n digwydd.

53 Sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Dai Fforddiadwy sy'n darparu cyngor i'r Cabinet ar faterion polisi penodol. Ceir dau Aelod sydd ill dau'n rhan o'r Grŵp Cynghori a Phwyllgor Craffu a'i gylch gorchwyl yn cwmpasu'r maes polisi sy'n cael ei ddatblygu gan y Grŵp Cynghori y maent yn aelodau ohono. Mae hyn yn cymylu trefniadau atebolrwydd ac annibyniaeth Craffu.

54 Caiff penderfyniadau sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithredol y Cyngor eu gwneud gan y Cabinet cyfan neu eu dirprwyo i'w Uwch-swyddogion. Nodwyd y trefniadau hyn yng nghyfansoddiad y Cyngor a'u cofnodi yn ei gofrestr penderfyniadau, ac mae'r ddau i'w gweld ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi dechrau ystyried a ddylai ddirprwyo rhai o'r penderfyniadau gweithredol hyn i Aelodau unigol o'r Cabinet er mwyn helpu i gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol, yn unol â'r sylwadau a wnaethom yn ein hadroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol ym mis Medi 2014. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi datrys mater dirprwyo penderfyniadau gweithredol i Aelodau unigol o'r Cabinet hyd yn hyn.

55 Hefyd, mae nifer o seddi gwag ar y Pwyllgorau Craffu, ac mae lefelau presenoldeb yr aelodau'n aml yn isel. Mae canfyddiad bod rhai Aelodau nad ydynt yn cyflawni eu rôl fel cynrychiolwyr etholedig, na'r cyfrifoldebau a ymddiriedwyd iddynt i herio polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau mewn modd adeiladol. Mae hyn yn tanseilio effeithiolrwydd posibl ac effaith gwaith Craffu.

56 Mae’r tryloywder a addewir gan weddarllediadau’r Cyngor yn anghyson. Ar hyn o bryd, dim ond cyfarfodydd llawn y Cyngor – ac ers mis Tachwedd 2015, cyfarfodydd or Pwyllgor Cynllunio - a weddarlledir yn fyw. Mae’r Cyngor yn datblygu defnydd ehangach o weddarlledu drwy dreialu, ond mae eto i’w weithredu’n llawn ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor.

57 Er y gwnaed gwelliannau o ran sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi’n ddiymdroi ac yn gywir ar wefan y Cyngor, nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos o hyd.

58 Mae’r Cyngor yn ymwybodol fod nifer o’r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Mehefin 2014 yn ystod ei adolygiad o drefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor heb gael sylw llawn o hyd.

59 Ar hyn o bryd nid yw’r Cyngor yn cyrraedd ei darged ar gyfer cwblhau e-ddysgu am gyfrinachedd gwybodaeth a diogelu data. Erbyn mis Hydref 2015, roedd 81 y cant o’r staff wedi cwblhau’r hyfforddiant ar gyfer 2015 yn erbyn targed o 85 y cant.

60 Dechreuodd y Cyngor weithredu System Rheoli Cofnodion Electronig yn ystod 2015. Fodd bynnag, mewn nifer fach o fannau yn unig y treialwyd y system ac nid yw wedi’i chyflwyno ar draws y Cyngor cyfan.

61 Mae’r Cyngor yn monitro ei ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth diogelu data a cheisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn erbyn y targedau statudol. Ar adeg ein hadolygiad, mesurwyd bod ceisiadau gwrthrych am wybodaeth diogelu data yn 86 y cant yn erbyn targed cydymffurfio o 90 y cant ar gyfer ymateb cyn pen 40 diwrnod. Rhaid ymateb i bob cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth cyn pen 20 diwrnod. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y Cyngor ond yn cyrraedd y targed yn achos 75 y cant o’r ceisiadau a reolir gan y tîm rheoli gwybodaeth corfforaethol, a 71 y cant o’r ceisiadau a reolir gan gyfarwyddiaethau’r Cyngor.

62 Ym mis Ebrill 2014 cydnabu’r Cyngor yn ffurfiol mai’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yw’r Gwarcheidwad Caldicott[2]. Er ei bod yn arfer da i gwblhau hunanasesiad egwyddorion ar waith Caldicott ar drefniadau Caldicott y Cyngor, ym mis Rhagfyr 2015, nid yw hyn wedi digwydd.

2 Mae Gwarcheidwaid Caldicott yn sicrhau bod gan pob sefydliad sy’n gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol bolisïau a phrosesau ar waith i ddiogelu gwybodaeth sensitif, ar ffurf data cleifion adnabyddadwy, rhag cael ei datgelu’n ddiangen a heb ddiogelwch. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, **Caldicott (Principles into Practice (C-PIP) Foundation Manual for Caldicott Guardians** Ail argraffiad 2012.

## Nid yw'r Cyngor wedi arddangos newid sylweddol hyd yn hyn o ran gwella rhai meysydd gwasanaeth allweddol ac nid yw'n mynd ati'n gyson i adrodd ar fesurau perfformiad yn effeithiol

63 Yn ystod mis Hydref 2015, cynhaliodd Estyn ymweliad Gwelliant Sylweddol â'r Cyngor i adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn ystod yr ymweliad monitro ym mis Chwefror 2014. Un o'r argymhellion a gafodd sylw oedd 'Lleihau nifer y gwaharddiadau a lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ôl-16'. Mewn perthynas â'r argymhelliad hwn, nododd Estyn fod canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghaerdydd yn parhau i ddisgyn. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru ac mae gormod o amrywio ar draws ysgolion. Yn ysgolion Caerdydd yn 2014, roedd canran pobl ifanc NEET Blwyddyn 11 yn amrywio rhwng 0.4 y cant ac 13 y cant.

64 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2014-2015 ym mis Hydref 2015, a nodai ddangosyddion perfformiad allweddol a ddangosai fod rhai meysydd perfformiad allweddol yn dal i fod angen eu gwella. AGGCC, **Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15: Gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Dinas Caerdydd**, Hydref 2015.

65 Ceir 18 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn ymwneud â gwasanaethau oedolion a phlant. Dirywiodd perfformiad y Cyngor rhwng 2013-14 a 2014-15 mewn perthynas ag 14 o'r dangosyddion perfformiad hyn, gyda thri ohonynt yn gwella ac un heb newid.

66 Yn 2013-14 ni chyrhaeddodd y Cyngor darged Llywodraeth Cymru o 52 y cant ar gyfer ailgylchu, gan gyrraedd 49.7 y cant yn unig, a'i gosodai yn safle 20 o blith 22 o Gynghorau Cymru. Yn 2014-15 rhagorodd y Cyngor ar y targed o 52 y cant, gan gyrraedd 53.3 y cant. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod y gwelliant hwn yn deillio'n rhannol o gynnwys pentyriad o sbwriel stryd yn y ffigurau, a oedd yn elfen untro'n unig. Targed ailgylchu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yw 58 y cant. Bydd angen newid sylweddol ym mherfformiad y Cyngor iddo allu cyrraedd y targed hwn, ac mae wedi lansio strategaeth newydd i'w helpu i'w gyflawni. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yn cyrraedd y targed, ond nes y byddwn yn cyrraedd ddiwedd y flwyddyn 2015-16, ni ellir fod yn sicr ynghylch hynny.

67 Yn seiliedig ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, mae perfformiad cyffredinol y Cyngor wedi dirywio. Mae data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2014-15 yn dangos bod 26 dangosydd wedi dirywio gyda 18 yn gwella ac un heb newid.

68 Roedd cynnwys a chyflwyniad gwybodaeth yn adroddiad perfformiad y chwarter cyntaf a gyflwynwyd i'r Cabinet yn amrywio o un Gyfarwyddiaeth i'r llall. Roedd yr adroddiad yn nodi'r holl ddangosyddion y mae'r Cyngor yn mesur cynnydd yn eu herbyn, gan gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a dangosyddion eraill lleol. Nodir cynnydd yn erbyn y targed ar gyfer y dangosyddion hyn drwy ddefnyddio sgoriau Gwyrdd/Ambr/Coch, lle mae Gwyrdd yn dynodi ei fod ar y trywydd tuag at y targed; Ambr yn dynodi nad yw ar y trywydd tuag at y targed ond bod modd adfer y sefyllfa er mwyn ei roi ar y trywydd tuag at y targed; a dynoda Coch nad yw ar y trywydd tuag at y targed a bod angen gwaith sylweddol i'w adfer i sefyllfa lle bydd ar y trywydd tuag at y targed. Mewn perthynas â'r dangosyddion hyn, mae 62 yn Wyrdd, 34 yn Ambr a 14 yn Goch. Er bod pob Cyfarwyddiaeth yn nodi faint o gamau gweithredu ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol a chamau gweithredu Cynllun y Gyfarwyddiaeth sy'n Wyrdd, Ambr neu Goch, nid oes cysondeb yn y modd y mae'r naratif yn egluro pa sgôr a roddir i'r camau gweithredu penodol.

69 Mae Pwyllgorau Craffu yn cael yr adroddiadau perfformiad chwarterol yn yr un fformat â'r rhai a gyflwynir i'r Cabinet. Felly, mae'r gwendidau'n ymwneud ag adrodd ar berfformiad i'r Cabinet yn cael eu hailadrodd yn ystod y broses graffu.

70 Oherwydd y cyfyngiadau ariannol cyfredol, mae swyddogion ac Aelodau yn cydnabod na all y Cyngor wella perfformiad pob dangosydd strategol cenedlaethol a mesur atebolrwydd cyhoeddus bellach. Fodd bynnag, roedd y rhai a gyfwelwyd gennym yn ansicr pa ddangosyddion y dylai'r Cyngor eu targedu er mwyn gwella perfformiad.

71 Nid yw Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2015-17 a chynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau bob amser yn cynnwys data sylfaenol ar gyfer darparu'r cyd-destun angenrheidiol i berfformiad y Cyngor. Mae ansawdd mesurau perfformiad yn amrywio yng nghynlluniau cyflawni'r cyfarwyddiaethau oherwydd, yn aml, nid yw'r mesurau yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn ogystal, nid yw pob cynllun yn cynnwys gwybodaeth ynghylch partneriaid, nac yn cysylltu â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

72 Nid yw cynlluniau Lefel Gwasanaeth yn orfodol, ac mae'r rhai sydd ar waith yn anghyson. Adolygwyd pedwar cynllun gwasanaeth gennym, ac roedd gan dri ohonynt amserlenni gwahanol: 2015-16; 2015-17; a 2015-18. Hefyd, ceir diffyg cysondeb yn y mesurau perfformiad sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau lefel gwasanaeth ar gyfer mesur gwelliant, a dwyn y gwasanaethau hynny i gyfrif.

## Nid yw swyddogaethau galluogi corfforaethol yn gweithredu mewn modd digon cydlynus i ysgogi gwelliant

73 Dylai swyddogaethau galluogi corfforaethol gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae swyddogaethau galluogi'r Cyngor, megis Rheoli Perfformiad, Adnoddau Dynol, Rheoli Asedau, Caffael, Cyllid a TG yn cael eu cryfhau. Fodd bynnag, nid ydynt ar hyn o bryd yn gweithio mewn modd digon cydlynus i ddarparu'r craidd cryf angenrheidiol o gefnogaeth a her i helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliannau i wasanaethau.

74 Nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad mor rymus ag y dylent fod ac ni chânt eu gweithredu'n llawn ar draws y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi llunio strategaeth rheoli perfformiad sy'n cyfleu pwysigrwydd gwybodaeth rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth yn cynnwys yr arweiniad, yr amserlenni, y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau dull cyson o weithredu ac i gefnogi atebolrwydd. Nododd ein cyfweliadau safbwyntiau cymysg ynglŷn â lefel yr her a ddarperir gan y tîm perfformiad canolog i'r cyfarwyddiaethau. Mae'n ymddangos i ni mai rôl y tîm perfformiad canolog yw monitro yn hytrach na chefnogi rheoli a gwella perfformiad. Ym mis Hydref 2015 cyhoeddodd y Cyngor ei asesiad blynyddol o berfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Methodd y Cyngor â darparu asesiad cyffredinol o berfformiad ar gyfer pob un o amcanion gwella'r Cyngor, ac felly methodd â bodloni gofynion y Mesur.

75 Er bod gan y Cyngor strategaeth ar waith ar gyfer y gweithlu, mae'n aneglur sut y mae cynllunio'r gweithlu wedi gwreiddio ac integreiddio â chynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau. Nid yw'r broses arfarnu staff yn gyson yn cynnwys digon o amcanion y gellir eu mesur yn glir, ac nid yw'r broses arfarnu yn cynhyrchu gwybodaeth gorfforaethol ar yr hyfforddiant a gafwyd ac a gyflwynwyd, a dyheadau gyrfaol y gweithlu ar gyfer y dyfodol.

76 Mae trefniadau gwell ar gyfer rheoli asedau eto i gael eu sefydlu'n llawn. Hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor wedi cwblhau ei asesiad o ddefnydd cyfredol ac addasrwydd ei asedau a'i anghenion llety yn y dyfodol. Nid yw gwybodaeth reoli'n ymwneud â'i asedau yn deillio o un system, ac yn lle hynny, daw o ystod o ffynonellau gan ei gwneud yn ofynnol casglu'r wybodaeth â llaw er mwyn cynhyrchu adroddiadau rheoli. Mae'r trefniant aneffeithlon hwn yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu cyflawni ei Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol yn llawn.

77 Mae'r Cyngor wedi ymateb i adolygiad o'i fframwaith cynnal a chadw adeiladau drwy Rhagoriaeth Adeiladu Cymru ym mis Mehefin 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys sawl beirniadaeth yn ymwneud ag atebolrwydd, rheoli asedau eiddo, cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a gwastraff, a diffyg rheoli perfformiad. Datblygwyd cynllun gweithredu manwl a chyflwynwyd adroddiad ar ei gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2015. Fodd bynnag, er bod rhai camau gweithredu yn y cynllun wedi'u cwblhau, mae nifer yn dal heb eu gwneud, a heb eu cyflawni erbyn y dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau.

78 Wrth edrych ar benderfyniad y Cyngor i ystyried modelau gwahanol argyfer cyflwyno gwasanaethau hamdden, fe fu i ni adnabod na chafodd yr amserlen wreiddiol ar gyfer proses caffael rheolaeth nifer o ganolfannau gweithgareddau hamdden ei wireddu. Fe gawsom bod ansicrwydd ynghylch pa bryd y byddai'r proses caffael yn dod i ben a pha bryd y byddai angen i'r Cabinet ddod i benderfyniad. Bu i ni hefyd adnabod y gallai'r gefnogaeth i Aelodau'r Cabinet, a oedd i'w cynorthwyo i wneud y penderfyniad, fod yn gryfach. Er enghraifft, fe ellid fod wedi briffio'r Aelodau ar gymhlethdodau'r proses caffael. Fe all yr oedi yn y proses caffael effeithio'n andwyol ar allu'r Cyngor i sicrhau arbedion yn ystod 2015-16; mae'r Cyngor yn hyderus, serch hynny, y bydd yn gallu canfod yr arbedion o lefydd eraill yn yr un Gyfarwyddiaeth.

79 Mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau arbed arian ond nid yw'r rhain wedi'u datblygu'n llawn eto nac yn seiliedig ar strategaeth gyflawni gadarn. Nododd y Cyngor warged net o £1.741 miliwn ar ei gyllideb ar gyfer 2014-15. Cyflawnwyd hyn drwy gymhwyso arbedion untro nas rhagwelwyd yn wreiddiol, a'r defnydd o'r gyllideb wrth gefn o £4 miliwn a gedwir yn ganolog er mwyn lliniaru arbedion a fwriadwyd ond nas cyflawnwyd. Mae proses adrodd ar orwariant gwasanaethau o fewn y flwyddyn yn dryloyw, ond mae'r sefyllfa diwedd-blwyddyn yn cael ei fantoli drwy ddefnyddio hyblygrwydd corfforaethol, ac yn cynnwys arbedion o'r gyllideb digwyddiadau annisgwyl.

80 Roedd y sefyllfa alldro yn cynnwys diffyg ar darged arbedion 2014-15 o £6.9 miliwn. Y rhagamcanion cyfredol yw bod £2.8 miliwn o'r diffyg hwn, ynghyd â £5.7 miliwn o arbedion targed 2015-16 yn annhebygol o gael eu cyflawni erbyn 31 Mawrth 2016. Mae arbedion heb eu cyflawni'n ymwneud yn bennaf â newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau nad ydynt wedi digwydd, neu sy'n cymryd mwy o amser i'w gweithredu na'r disgwyl, gan arwain at arbedion am ran o'r flwyddyn neu ddim arbedion yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynlluniau arbed arian yn ddigon datblygedig pan gaiff y gyllideb ei phennu.

81 Mae'r Cyngor wedi rhagweld diffyg o £116 miliwn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2018-19, sy'n cynnwys targed o £44 miliwn ar gyfer arbedion wedi'u harwain gan bolisi. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y bwlch yn y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn ddarostyngedig i newid a bydd angen i newidynnau allweddol fod yn hyblyg i adlewyrchu hyn. Cynllun Datblygu Sefydliadol y Cyngor yw'r ffactor allweddol ar gyfer ysgogi adolygiad o ffurf a chwmpas gwasanaethau y gellir eu darparu o'r gyllideb sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau arbed a gynhwysir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cysylltu'n uniongyrchol â ffrydiau gwaith neu brosiectau yn y Cynllun Datblygu Sefydliadol.

82 Yn ystod 2015-16, fe fu i ni gynnal adolygiad ar wahân o wytnwch ariannol y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedi ei gyflwyno ar wahân i'r Cyngor ac wedi ei grynhoi yn yr adroddiad hwn.

83 Mae cyflymder y Cyngor yn rhoi mentrau newydd ar waith gan ddefnyddio technoleg i foderneiddio gwasanaethau a chefnogi'r busnes o drawsffurfio'r gwaith wedi bod yn arafach nag a fwriadwyd. Roedd y Cyngor wedi bwriadu dechrau cyflwyno'r System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid dros dair blynedd ym mis Hydref 2015, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd hynny wedi digwydd. Mae'n ansicr hefyd a fydd y Cyngor yn gallu rheoli'r gwaith o drefnu'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn ôl yr amserlenni a nodwyd yn y llwybr tair blynedd strategol, a chyflawni'r manteision disgwyliedig. O gofio'r cyfyngiadau ariannol presennol, mae'r Cyngor yn wynebu her i ddarparu digon o gyllideb cyfalaf a refeniw i uwchraddio systemau TG sy'n heneiddio.

84 Mae cyflymder y defnydd a wneir o brosiectau newid prosesau busnes wedi bod yn araf tan yn ddiweddar. Er enghraifft, nid yw'r trefniadau amserlennu symudol wedi eu cyflwyno eto'n gyson ar draws y Cyngor. Nid oes cysondeb ychwaith yn yr ailgynllunio gwasanaethau a newidiadau diwylliannol fyddai'n caniatáu i'r Cyngor gyflymu'r broses o gyflwyno'r amserlennu symudol a fyddai'n awtomeiddio prosesau llaw.

85 Datblygwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol TGCh i gyd-fynd â'r dull rheoli perfformiad corfforaethol sy'n dod i'r amlwg a ddatblygwyd yn 2014. Adroddir ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y gwasanaeth TGCh yn chwarterol ar lefel y cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r wybodaeth a ddarperir gan y nifer fach hon o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ac nid ydynt yn cynnwys meini prawf gwasanaeth TGCh ehangach megis mesurau cost. Yn ogystal, nid yw asesiad o berfformiad gwasanaeth TGCh y Cyngor yn cynnwys meincnodi yn erbyn cymaryddion.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru